Penodi pennaeth cyntaf ysgol newydd



Mae corff llywodraethu dros dro ysgol newydd i wasanaethu cymunedau Hakin a Hubberston yn Aberdaugleddau wedi penodi pennaeth.

Nick Dyer - pennaeth gweithredol y ddwy ysgol sy'n gwasanaethu'r cylch heddiw - fydd pennaeth cyntaf Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Gelliswick Yr Eglwys yng Nghymru sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd.

Penodwyd Mr Dyer yn dilyn hysbysebu'r swydd yn lleol a chenedlaethol a gwneud cyflwyniad i, a chael cyfweliad gan, bwyllgor penodiadau'r corff llywodraethu dros dro.

Meddai: "Rwy'n hynod falch o gael fy mhenodi ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'r disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr i ddal i adeiladu dyfodol llwyddiannus i'r plant, ar sail gwerthoedd sy'n bwysig i'r gymuned.

"Mae'n fraint fawr cael bod yn creu dysg a chynnig gobaith i blant."

Meddai Yvonne Southwell, Cynghorydd Tref Aberdaugleddau a Chadeirydd y corff llywodraethol dros dro: "Rwy'n hynod falch bod Mr Dyer wedi cael ei benodi'n bennaeth cyntaf.

"Mae wedi bod yn bennaeth rhagorol yn ystod dwy flynedd cyfuno'r ysgolion ac mae wedi cynnal ansawdd y ddwy ysgol.

"Mae Mr Dyer yn dod gyda chefnogaeth a pharch y disgyblion, y rhieni, y staff a'r corff llywodraethol dros dro. Bydd yr arweinyddiaeth a ddangosodd yn galluogi iddo ddal a llewyrchu yn yr ysgol newydd."

Geiriad
Yn y llun mae Nick Dyer gyda'r ysgol newydd yn y cefndir.